Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith

## Tachwedd 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned** | **8** |
| Dinasyddiaeth weithgar a rolau arweinyddiaeth dysgwyr sy’n oedolion | 10 |
| Deilliannau dysgwyr | 13 |
| Y cwricwlwm, adnoddau a chyfleusterau | 14 |
| **Dysgu yn y gwaith** | **15** |
| Strategaethau a gweithgareddau cynnwys dysgwyr | 16 |
| Deilliannau dysgwyr | 18 |
| Ansawdd yr addysgu a’r dysgu | 19 |
| Taith y dysgwr | 20 |
| Y cwricwlwm, cyfleusterau ac adnoddau | 20 |
| **Arfarniad cryno o effaith strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys dysgwyr** | **21** |
| Mathau o gynnwys dysgwyr | 23 |
| Dulliau o gynnwys dysgwyr | 23 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **25** |
| **Atodiad 2: Enghreifftiau o ddarparwyr y mae eu hethos a’u harfer wedi’u seilio ar gynnwys dysgwyr** | **26** |
| **Atodiad 3: Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2014** | **29** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **29** |

## Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres o dri adroddiad y gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau amdanynt yn ei lythyr cylch gwaith blynyddol i Estyn. Ei fwriad yw llywio datblygiad pellach arweiniad strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr dysgu ôl-16, a lledaenu astudiaethau achos arfer orau ar draws y rhwydwaith ôl-16.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) a darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG) yn rhoi strategaethau cynnwys dysgwyr ar waith.

Fel rhan o'r arolwg hwn, mae arolygwyr wedi casglu ac arfarnu ystod o wybodaeth. Fe wnaethom ymweld â 12 o bartneriaethau a darparwyr DOG ac wyth o ddarparwyr DYYG (gweler Atodiad 1). Diben yr ymweliadau hyn oedd mynd ar drywydd y cynnydd y mae'r darparwyr addysg a hyfforddiant hyn wedi'i wneud ers cyflwyno strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru yn 2010. Aethom ati i wneud y gwaith hwn rhwng Awst a Rhagfyr 2013. Hefyd, cynhaliwyd arolwg ar-lein gennym ym Medi 2013.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi arfarniad cyffredinol o ba mor dda y mae darparwyr yn y sector ôl-16 yn helpu dysgwyr i lywio'u cwricwlwm ac i gymryd mwy o reolaeth dros yr hyn maent yn ei ddysgu.

## Cefndir

Yn Chwefror 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar gyfer darparwyr ôl-16 ar roi strategaethau cynnwys dysgwyr ar waith. Mae'r arweiniad yn helpu darparwyr i fynd y tu hwnt i gynnal arolygon o safbwyntiau dysgwyr i roi rôl allweddol i ddysgwyr mewn ffurfio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu profiad o ddysgu.

Mae'r arweiniad yn amlinellu fframwaith ar gyfer strategaethau cynnwys dysgwyr. Mae'n galw ar ddarparwyr dysgu gydol oes a medrau i wneud yn siŵr bod eu strategaethau eu hunain yn cynnwys:

- datganiad o ymrwymiad gan uwch reolwyr y sefydliad i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn ffurfio eu cwricwla eu hunain;
- nodau strategol clir ar gyfer ymgynghori â dysgwyr ac ar gyfer eu helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u hamgylchedd;
- trefniadau ar gyfer gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol i gynnwys dysgwyr;
- trefniadau ar gyfer casglu safbwyntiau dysgwyr trwy systemau strwythuredig, gan eu defnyddio i wella ansawdd y dysgu, ac adrodd yn ôl i ddysgwyr er mwyn iddynt allu gweld sut mae eu safbwyntiau wedi gwneud gwahaniaeth;
- trefniadau ar gyfer gofyn am safbwyntiau dysgwyr 'sy'n anodd eu cyrraedd';
- gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a hyfforddi cynrychiolwyr dysgwyr er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol; a

- threfniadau ar gyfer integreiddio safbwyntiau dysgwyr mewn systemau sicrhau ansawdd, gan gynnwys hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd; a threfniadau ar gyfer monitro, arfarnu ac adrodd ar roi'r strategaeth ar waith a'i heffeithiolrwydd, gan gynnwys ffyrdd o roi gwybod i ddysgwyr am y camau a gymerwyd i ymateb i'w hadborth.

Yn ei ragair i'r arweiniad ar y strategaeth cynnwys dysgwyr, dywedodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau bryd hynny:

"Profwyd bod cyfrannu at wneud penderfyniadau o fudd i ddysgwyr. Yn ogystal â rhoi mwy o gymhelliant iddynt a gwneud iddynt deimlo'n fwy o ran o'u profiad dysgu, gall eu helpu i ddatblygu sgiliau pwysig a fydd yn eu harfogi at y dyfodol fel dinasyddion gweithgar. Bydd hefyd yn helpu darparwyr i gadw a gwella cyrhaeddiad eu dysgwyr, drwy greu cenhedlaeth o ddysgwyr a fydd yn cydweithio gyda staff i wella ansawdd eu dysgu."

Yn amlwg, mae dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys dysgwyr yn cynnwys helpu dysgwyr i ddatblygu medrau ar gyfer dinasyddiaeth weithgar yn ogystal â gwella'u cyflawniad.

Cyhoeddodd Estyn adroddiad yn dwyn y teitl 'Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn dysgu ôl-16' ym Mai 2012. Canfu'r adroddiad hwn fod darparwyr ôl-16:

- yn gwneud defnydd da o strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu a rhoi eu strategaeth eu hunain ar waith neu maent yn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio yn unol â chanllawiau cenedlaethol; ac
- yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys dysgwyr yn y rhan fwyaf o sectorau ôl-16.

Yng Ngorffennaf 2013, cyhoeddodd Estyn ail adroddiad a ganolbwyntiodd ar strategaethau cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach ac mewn canolfannau Cymraeg i Oedolion. Canfu arolygwyr fod darparwyr yn y ddau sector wedi symud yn sylweddol y tu hwnt i ddefnyddio arolygon dysgwyr fel y prif ffyrdd o gasglu a dadansoddi barnau a safbwyntiau. Roedd y darparwyr hyn yn cynnwys dysgwyr yn dda mewn gweithgareddau sy'n eu helpu i ffurfio'r cwricwlwm, dylanwadu ar welliannau yn ansawdd yr addysgu, cynnig cyngor i ddarparwr ynglŷn ag ansawdd cyfleusterau a chyfrannu at hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd. Fe wnaeth dysgwyr chwarae rhan bwysig mewn gwella darpariaeth.

Yn y ddau gyhoeddiad, adroddom fod cynnwys dysgwyr ym mhob sector wrth ffurfio'u cwricwlwm yn eu helpu i wella'u medrau personol a chymdeithasol a'u lles. Fodd bynnag, dim ond dechrau rhoi systemau ffurfiol ar waith ar gyfer cofnodi a chydnabod y deilliannau hyn ar gyfer dysgwyr yr oedd y darparwyr.

Ers i ni ddechrau'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio mentrau strategol eraill sy'n cynorthwyo cynnwys dysgwyr. Ym Mawrth 2012, cyhoeddodd arweiniad ar gyfer y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) ynglŷn ag addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF). Roedd Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod DOG ac ADCDF yn rhannu nod gyffredin, sef

grymuso unigolion a hwyluso'u datblygiad fel dinasyddion gweithgar ac ymwybodol, gan gydnabod anghenion dysgwyr i ymgysylltu'n annibynnol ac yn feirniadol â phrosesau a rhwydweithiau sy'n datblygu o ganlyniad i newid byd-eang.

Ym Medi 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru ail rownd Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) mewn partneriaeth â TUC Cymru.  Nod cronfa WULF yw nodi a gweithredu cyfleoedd dysgu yn y gweithle er mwyn sicrhau bod cyflogeion yn cael y medrau sydd eu hangen arnynt i gyflawni'u gwaith hyd orau eu gallu.  Mae'r gronfa yn cynyddu gallu undebau llafur i hyrwyddo dysgu yn y gweithle.  Mae TUC Cymru yn gweithio'n dda â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (Cymru) i hyfforddi aelodau undebau fel Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau, sy'n hyrwyddo dysgu i gyflogeion yn y gweithle.

Yn Ionawr 2103, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei harolwg cyntaf Llais y Dysgwr Cymru ar draws pob cyfnod yn y sector ôl-16 (Gweler Atodiad 3).  Mae'r arolwg yn cynnig cyfle i ddysgwyr roi eu barnau ar:  y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarparwyd iddynt; ymatebolrwydd darparwyr; amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr; ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a boddhad cyffredinol.  Yn ystod y cam casglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, roeddem yn awyddus i bennu pa mor dda y mae darparwyr yn defnyddio canlyniadau eu harolwg i ymateb i'r hyn y mae eu dysgwyr wedi'i ddweud am eu cwricwlwm.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae arweiniad strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr ôl-16 wedi helpu darparwyr DOG a DYYG i wella’r modd y mae dysgwyr yn ffurfio eu cwricwlwm.

2 Mae darparwyr yn y ddau sector yn gwneud defnydd da o strategaethau a gweithgareddau cynnwys i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu dylanwadu ar y cwricwlwm, adnoddau a chyfleusterau. Fodd bynnag, nid yw pob darparwr DOG yn defnyddio deilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu a’r asesu yn ddigon da.

3 Mae darparwyr yn y ddau sector wedi symud yn sylweddol y tu hwnt i ddefnyddio arolygon dysgwyr fel y prif ffyrdd o gasglu a dadansoddi barnau a safbwyntiau. Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio fforymau dysgwyr, cynrychiolwyr dosbarth neu gwrs a gweithgareddau cyfoethogi i ymestyn medrau dysgwyr a helpu dysgwyr i arfarnu’r cwricwlwm. Yn bwysig i hyn yw’r ffaith bod darparwyr yn y ddau sector yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth, sy’n eu helpu i ddatblygu medrau ar gyfer dinasyddiaeth a chyfrannu at y gymuned ehangach.

4 Yn y ddau sector, mae darparwyr yn gwneud defnydd da o ddeiliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i lywio hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd. Mae gan bob darparwr ddulliau ffurfiol o adrodd y canlyniadau i ddysgwyr, gan roi eu barnau a’u safbwyntiau. Fodd bynnag, nid yw’n glir faint o ddarparwyr DOG sy’n darparu gwybodaeth i ddysgwyr am beth sydd wedi digwydd neu beth maent wedi’i newid o ganlyniad i gymryd rhan yn yr arolygon neu’r holiaduron hyn.

5 Mae dysgwyr yn cyflawni ystod o ddeilliannau yn sgil cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr. Mae’r deilliannau hyn yn ymwneud yn bennaf â datblygu medrau personol a chymdeithasol. Mae llawer o ddysgwyr sy’n oedolion yn gwella’u heffeithiolrwydd personol o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella dysgwyr. Defnyddiant eu dysgu’n dda i wella’u gwaith a’u bywydau. Canfu arolygwyr fod dysgwyr yn y gwaith yn datblygu ystod o fedrau a gwybodaeth a oedd yn eu helpu yn eu bywydau gweithio bob dydd. Mewn DOG, mae dysgwyr hŷn yn cymryd cyfrifoldeb yn dda am drefnu eu gweithgareddau dysgu eu hunain. Fodd bynnag, ychydig o ddarparwyr sydd â systemau ffurfiol i gofnodi a chydnabod y medrau a’r wybodaeth y mae dysgwyr wedi’u caffael.

6 Mae effaith y gwaith o gynnwys dysgwyr ar gyrhaeddiad a chymwysterau yn llai eglur. Ychydig o ddarparwyr sydd wedi gallu mesur effaith cynnwys dysgwyr ar gyfraddau llwyddo yn gywir. Canfu’r arolygwyr fod ystod o ffactorau eraill (fel parodrwydd i ymgysylltu, hyder, gallu i gyfleu syniadau) yn cyfrannu at wella cyrhaeddiad a chymwysterau ochr yn ochr â chynnwys dysgwyr. Yn ogystal, nid yw partneriaethau a darparwyr DOG yn gwneud digon o ddefnydd o ddeilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu.

7 Dim ond mewn ychydig o achosion y mae partneriaethau a darparwyr DOG yn rhoi blaenoriaeth i helpu dysgwyr drefnu eu dysgu eu hunain. Mae dysgwyr yn cael ystod o fuddion o hyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw partneriaethau a darparwyr

DOG yn gwneud digon i helpu dysgwyr sefydlu eu dosbarthiadau neu’u gweithgareddau eu hunain. Nid oes seilwaith yn ei le gan y rhan fwyaf o ddarparwyr DOG awdurdodau lleol ac addysg bellach i helpu dysgwyr drefnu’u dysgu eu hunain. O ganlyniad, nid yw pob dysgwr yn cael cyfle i ddatblygu’i fedrau dinasyddiaeth neu arweinyddiaeth.

8 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg cenedlaethol Llais y Dysgwr Cymru yn Ionawr a Chwefror 2013. Mae’r dystiolaeth o’r gwaith hwn ac o arolygu yn dangos bod darparwyr yn dechrau gwneud defnydd o ganlyniadau arolwg Llais y Dysgwr yn eu prosesau hunanasesu a chynllunio gwella ansawdd. Canfu’r arolygwyr fod darparwyr yn defnyddio’r arolwg hwn ochr yn ochr â’r ystod o weithgareddau eraill cynnwys dysgwyr yr adroddwyd amdanynt uchod. Serch hynny, nid yw pob partneriaeth DOG yn defnyddio canlyniadau eu harolwg Llais y Dysgwr Cymru yn ddigon da i wella ansawdd eu darpariaeth. Nid yw pob dysgwyr yn y gwaith yn gwybod am ganlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Cymru ar lefel darparwr.

9 Dros dair blynedd gwaith yr arolwg hwn, canfu’r arolygwyr fod darparwyr ym mhob lleoliad ôl-16 (addysg bellach, Cymraeg i Oedolion, DOG a DYYG) yn gwneud defnydd da o strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu cyfrannu at ffurfio’r ddarpariaeth a’r cwricwlwm. Mae darparwyr ym mhob lleoliad yn gweithio’n dda â dysgwr i wneud yn siŵr bod eu barnau a’u safbwyntiau yn cael effaith gadarnhaol ar:

- ddeilliannau dysgwyr – yn enwedig medrau personol a chymdeithasol;
- y cwricwlwm;
- adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau;
- cymorth i ddysgwyr;
- gwella ansawdd; ac
- arwain a rheoli’r ddarpariaeth yn gyffredinol.

10 Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o sectorau yn defnyddio barnau a safbwyntiau dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu a’r asesu, roedd hyn yn llai cyffredin mewn DOG.

11 Mae darparwyr yn y sector ôl-16 yn defnyddio dau brif fath o gynnwys i gael dysgwyr i ymgysylltu â ffurfio’u cwricwlwm:

- cynnwys myfyriol; a
- chynnwys gweithredol.

12 Canfu’r arolygwyr hefyd fod pedwar dull o gynnwys dysgwyr sy’n cael dysgwyr i ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol:

- arweinyddiaeth;
- partneriaeth;
- ymgynghori; a
- hysbysu.

13 Nid yw'r dulliau hyn o ennyn dysgwyr i ymgysylltu yn annibynnol ar ei gilydd. Gall darparwyr ddefnyddio cymysgedd o'r gweithgareddau hyn a helpu dysgwyr i symud rhwng y dulliau gwahanol.

14 Mae gwahanol bwyslais gan y dulliau gwahanol. Mae'r dulliau hysbysu ac ymgynghori yn ymwneud yn bennaf â gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r dulliau partneriaeth ac arweinyddiaeth yn ymwneud mwy â dysgwyr yn datblygu'r medrau a'r cymhelliant i weithredu a threfnu eu dysgu eu hunain.

## Argymhellion

**Dylai darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned:**

A1 rhoi seilweithiau ffurfiol ar waith i helpu dysgwyr drefnu'u dosbarthiadau a'u gweithgareddau eu hunain yn eu cymunedau;

A2 gynyddu'r defnydd o strategaethau a gweithgareddau cynnwys dysgwyr er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu;

A3 cynnig rhaglenni i ddysgwyr sy'n eu helpu i ddatblygu eu medrau dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth;

A4 rhoi systemau ffurfiol ar waith i gofnodi a chydnabod ystod y deilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr;

A5 gwneud defnydd cadarn o arolwg Llais y Dysgwr Cymru ar lefel partneriaeth wrth gynllunio gwella ansawdd; a

A6 gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod am beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i ddarparu'u barnau a'u safbwyntiau, neu beth maent wedi'i newid o ganlyniad i gymryd rhan mewn arolygon neu holiaduron

**Dylai darparwyr dysgu yn y gwaith:**

A7 fonitro'n fanylach effaith cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr ar gyfer dysgwyr unigol;

A8 gwella mynediad i weithgareddau cynnwys dysgwyr ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau gwasgaredig yn ddaearyddol; a

A9 gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gwybod beth yw canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Cymru ar lefel darparwr.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A10 adolygu ei strategaeth cynnwys dysgwyr i roi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau dinasyddiaeth a meithrin gallu dysgwyr i ymgymryd â rolau arwain a threfnu eu dysgu eu hunain.

## Darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned

15 Ymwelodd arolygwyr â 12 o bartneriaethau a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) fel rhan o'r arolwg hwn. Cynhaliwyd trafodaethau manwl gyda sampl gynrychioliadol o staff a thua 55 o ddysgwyr. Ymwelom hefyd â chynhadledd i ddysgwyr a drefnwyd gan Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol De-orllewin Cymru, a ddaeth â rhyw 50 o ddysgwyr at ei gilydd o ardaloedd awdurdod lleol Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phowys. Yn yr un modd, ymwelom â fforwm i ddysgwyr, a drefnwyd gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr, a fynychwyd gan dros 30 o ddysgwyr. Hefyd, ymatebodd saith o ddarparwyr DOG i arolwg ar-lein a gynhaliodd Estyn ym Medi 2013. Rydym hefyd wedi gallu defnyddio gwybodaeth o arolygiadau ac ymweliadau monitro i lywio'r adroddiad. Fe wnaethom gyfarfod â staff a dysgwyr o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru fel rhan o'r arolwg hwn. Ers hynny, mae'r gymdeithas wedi dod yn rhan o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru, ynghyd â Choleg Harlech a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru.

16 Canfu'r arolygwyr fod pob un o'r darparwyr DOG a fu'n rhan o'r arolwg hwn yn gwneud defnydd da o arweiniad strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru i lywio'u strategaethau a'u gweithgareddau eu hunain. Maent yn gwneud defnydd da o farnau a safbwyntiau dysgwyr i wneud newidiadau i'r cwricwlwm, adnoddau a chyfleusterau. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn caffael ystod o fedrau a gwybodaeth bersonol a chymdeithasol. Yn fwyaf nodedig, mae llawer o ddysgwyr yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth o fewn eu darparwyr er mwyn gwneud yn siwr bod y ddarpariaeth y maent yn rhan ohoni yn bodloni eu hanghenion.

17 Mae strategaeth ffurfiol ar gyfer cynnwys dysgwyr gan y rhan fwyaf o ddarparwyr DOG, y byddant yn ei defnyddio i arwain y gwaith a wnânt gyda dysgwyr, er mwyn eu cynnwys wrth ffurfio'r cwricwlwm. Mae'r strategaethau hyn ar gyfer cynnwys dysgwyr yn disgrifio sut bydd darparwyr yn cynnwys dysgwyr wrth lywio'r ddarpariaeth y maent yn rhan ohoni. Mewn ychydig o achosion, mae strategaethau cynnwys dysgwyr hefyd yn amlinellu sut bydd darparwyr yn cynnig hyfforddiant i ddysgwyr i'w helpu i ddatblygu medrau ar gyfer cymryd rhan mewn prosesau penderfynu. Yn gyffredinol, mae darparwyr DOG yn gwneud defnydd da o strategaethau cynnwys dysgwyr i wneud yn siwr bod dysgwyr yn cyfrannu at ffurfio'u cwricwlwm.

18 Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent, a reolir gan Goleg Gwent, yn cynnwys awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd. Mae gan y bartneriaeth hon strategaeth cynnwys dysgwyr, sy'n cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr fynegi'u barnau, sylwadau, ac awgrymiadau ar bob agwedd ar eu dysgu, ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar y cwricwlwm a'r ddarpariaeth. Mae'r strategaeth yn amlinellu ystod o weithgareddau y bydd y bartneriaeth yn eu defnyddio i gynnwys dysgwyr. Hefyd, mae'r strategaeth yn cynnwys mesurau y bydd y bartneriaeth yn eu defnyddio i fonitro ac arfarnu effaith y strategaeth, a'r buddion y bydd yn eu creu i ddysgwyr a darparwyr fel ei gilydd. Gwna'r bartneriaeth ddefnydd da o'r strategaeth i roi cynlluniau gwella ar waith ar lefel awdurdodau lleol unigol. Mae hyn yn galluogi partneriaid unigol i deilwra canlyniadau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i'w cyd-destun eu hunain.

19 Mae dysgwyr yng Ngwent o'r farn fod y strategaeth a gweithgareddau cynnwys y bartneriaeth yn ddefnyddiol o ran darparu syniadau ynglŷn â'r dosbarthiadau y byddent yn hoffi eu cael, a chynnig syniadau am ddylunio llyfrynnau a deunydd marchnata. Maent yn arfarnu ansawdd eu cwricwlwm ac yn cyfrannu at wella'r ddarpariaeth. Hefyd, maent yn gweld bod cyfarfod â dysgwyr o ardaloedd gwahanol ar draws y pum sir a chlywed beth sydd ganddynt i'w ddweud yn fuddiol.

20 Mae strategaeth cynnwys dysgwyr sydd wedi'i sefydlu ers tro gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA Cymru). Mae'r strategaeth yn ganolog i genhadaeth y darparwr i rymuso dysgwyr yn eu dysgu a thrwy eu dysgu. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ddarparu addysg ar gyfer cyfranogi, boed mewn cymunedau lleol neu mewn ystyr democrataidd ehangach. Yn aml, bydd dysgwyr yn symud ymlaen o gymryd rhan mewn cwrs yn eu hardal leol i ddod yn aelod o gangen ardal leol. Mae hon yn gymdeithas wirfoddol o ddysgwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb am drefnu dosbarthiadau a chyrsiau yn eu hardal leol eu hunain. Bydd ychydig o ddysgwyr yn symud ymlaen i ymuno â chyngor cenedlaethol y darparwr, neu bwyllgorau cenedlaethol eraill. Gwelodd yr arolygwyr lawer o enghreifftiau o'r math hwn o daith dysgwyr. Mae gan y sefydliad bwyllgor ansawdd a phrofiad dysgwyr, sy'n gyfrifol am fonitro deilliannau dysgwyr ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn y pwyllgor ac yn cael dylanwad uniongyrchol ar gyfeiriad strategol y sefydliad a'i gynlluniau darpariaeth a chynlluniau gwella ansawdd.

21 Mae pob un o'r darparwyr DOG yn defnyddio holiaduron ac arolygon i ganfod barnau dysgwyr ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth a'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r arolygwyr wedi gallu pennu i ba raddau y mae pob un o'r darparwyr yn defnyddio'r ymatebion i'r holiaduron hyn i gyflwyno dosbarthiadau a gweithgareddau newydd. Yn yr un modd, nid yw'n glir faint o ddarparwyr DOG sy'n darparu gwybodaeth i ddysgwyr am beth sydd wedi digwydd neu beth maent wedi'i newid o ganlyniad i gymryd rhan yn yr arolygon neu'r holiaduron hyn.

22 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg cenedlaethol Llais y Dysgwr yn Ionawr a Chwefror 2013. Cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 7,399 o ddysgwyr sy'n oedolion. At ei gilydd, roedd 89% o ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned o'r farn fod eu profiad cyffredinol yn dda neu'n dda iawn. Yn yr un modd, fe wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr ddweud bod eu darparwyr yn dda neu'n dda iawn ar draws pob agwedd ar yr arolwg. Yn ystod arolygiadau ym Merthyr Tudful a Cheredigion, canfu'r arolygwyr fod gormod o amrywio o ran y graddau yr oedd partneriaethau DOG yn defnyddio canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr yn eu prosesau hunanasesu a'u cynlluniau gwella ansawdd. Ym Merthyr Tydfil, roedd y bartneriaeth yn gwneud defnydd da o ganlyniadau arolwg Llais y Dysgwr i wella'r ddarpariaeth. Yng Ngheredigion, fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru yn ddigon da i lywio'r hunanasesu a gosod targedau ar gyfer gwella.

23 Mae'r holl ddarparwyr DOG yn defnyddio ystod eang o weithgareddau i helpu dysgwyr wella'r ddarpariaeth a'r cwricwlwm. Mae'r darparwyr yn cynnig cyfleoedd wyneb yn wyneb i ddysgwyr i drafod eu syniadau, eu barnau a'u safbwyntiau, gan gynnwys fforymau, grwpiau ffocws a chynadleddau. Mae'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb hyn â staff. Gallant roi eu barnau a'u safbwyntiau'n uniongyrchol i'r bobl sy'n trefnu eu dysgu, a chyfarfod â dysgwyr eraill

er mwyn rhannu syniadau a chreu syniadau newydd. Er enghraifft, mae dysgwyr ym Mhartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent wedi bod â rhan allweddol yn darparu adborth, a arweiniodd at gyrsiau newydd mewn harddwch, hanes teuluol a Saesneg Safon Uwch.

24 Mae darparwr DOG hefyd yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr gynrychioli dysgwyr eraill. Yn Nhorfaen, gall dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau trwy ddarpariaeth yr awdurdod lleol ddod yn aelodau o grŵp defnyddwyr mewn canolfannau DOG. Mae cyfansoddiad ffurfiol i grwpiau defnyddwyr y canolfannau. Gallant ddarparu cyllid i ddosbarthiadau a grwpiau ar gyfer ystod o weithgareddau dysgu. Mae hyn yn helpu dosbarthiadau a grwpiau i reoli agweddau ar eu dysgu sydd y tu allan i gwmpas dysgu a ariennir gan yr awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru. Mae grwpiau defnyddwyr y canolfannau yn helpu dysgwyr yn effeithiol i ffurfio darpariaeth ar lefel leol. Mae'r grŵp defnyddwyr yng Nghanolfan Addysg Gymunedol Croesyceiliog yn rhoi cymorth da i grŵp lleol turnio coed a cherfio pren gynnal eu dosbarthiadau eu hunain yn y ganolfan. O ganlyniad, mae'r grŵp wedi gallu diweddaru ei beiriannau.

25 At ei gilydd, canfuom fod partneriaethau DOG a dysgwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd i wneud newidiadau i:

- ddinasyddiaeth weithgar a rolau arweinyddiaeth dysgwyr sy'n oedolion;
- deilliannau dysgwyr, yn enwedig medrau personol a chymdeithasol; a'r
- cwricwlwm, adnoddau a chyfleusterau.

26 Nid yw mor eglur pa mor dda y mae darparwyr DOG yn defnyddio deilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i wella addysgu. Fe wnaeth yr arolygwyr ganfod tystiolaeth mewn ychydig o achosion, ym Mhartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent a phwyllgor ansawdd a phrofiad dysgwyr Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, fod gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn cyfrannu at wella ansawdd yr addysgu. Yng Nghymdeithas Addysg y Gweithwyr, mae tiwtoriaid wedi defnyddio canlyniadau adborth dysgwyr i helpu dysgwyr wneud mwy o ddefnydd o rith-amgylcheddau dysgu. Mae'r profiad ansawdd a phrofiad dysgwyr, sy'n cynnwys cynrychiolwyr dysgwyr, yn defnyddio adborth gan ddysgwyr yn dda i lywio cyfleoedd am ddatblygiad staff. Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent yn gwneud defnydd da o adborth gan ddysgwyr i ddatblygu syniadau newydd ar gyfer addysgu - fel gwneud mwy o ddefnydd o arbenigedd dysgwyr unigol yn y dosbarth.

## Dinasyddiaeth weithgar a rolau arweinyddiaeth dysgwyr sy'n oedolion

27 Y nodwedd fwyaf nodedig ynglŷn ag effaith y strategaethau cynnwys dysgwyr ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion yw bod nifer sylweddol o oedolion yn ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac am hyrwyddo buddion a manteision dysgu i bobl eraill. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn fwy parod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth o fewn eu sefydliad eu hunain, a gwnânt gyfraniadau pwysig at fywyd cyhoeddus ehangach. Mae hon yn agwedd bwysig ar gynnwys dysgwyr i DOG.

28 Mae gan ychydig o ddarparwyr DOG ddiben penodol i gynnwys dysgwyr wrth ffurfio neu greu'r cwricwlwm fel y gall dysgwyr ddod yn annibynnol, trefnu eu dysgu eu hunain ac annog pobl eraill i gymryd rhan mewn dysgu.

29 Er enghraifft, mae llawer o’r dysgwyr yng Nghymdeithas Addysg y Gweithwyr yn gwneud defnydd da o’u medrau a’u gwybodaeth yn eu gwaith fel aelodau cangen ac yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth weithgar ar lefelau gwahanol o fewn y sefydliad. Mae 16 o ganghennau gan y sefydliad ar hyd a lled De Cymru, sy’n gyfrifol am drefnu eu rhaglenni dysgu eu hunain. Mae’r gangen yn Llanelli, sydd yn ei 100fed blwyddyn ar hyn o bryd, yn trefnu ystod o weithgareddau gwahanol yn cynnwys cyrsiau mewn hanes, paentio, cerddoriaeth ac ysgrifennu creadigol. Mae’r gangen hefyd yn trefnu cyfres o ddarlithoedd ar ystod o bynciau a gyflwynir gan siaradwyr arbenigol, gan gynnwys enwogion cenedlaethol a phobl bwysig.

30 Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr hefyd yn hyfforddi dysgwyr yn eu sefydliad eu hunain, neu mewn darparwyr partner, fel cynrychiolwyr dysgu yn y gymuned. Mae’r cwrs cynrychiolwyr dysgu yn y gymuned (Gweler atodiad 2) yn helpu cyfranogwyr i ddatblygu’r medrau a’r hyder i hyrwyddo DOG i rai eraill yn eu cymuned. Mae cyfranogwyr ar y cwrs yn dysgu hyrwyddo cyfleoedd dysgu i bobl eraill a’u helpu i gymryd rhan mewn dosbarthiadau cyrsiau.

31 Mae’r cwrs wedi helpu cynrychiolwyr dysgu yn y gymuned i sicrhau ystod o ddeilliannau. Fe wnaeth un dysgwr wella ei hymwybyddiaeth o’r rhwystrau rhag dysgu y gall pobl wahanol eu hwynebu. Erbyn hyn, mae’n gweithio gyda phobl ddigartref ac yn eu hannog i fynd yn ôl i addysg. Aeth cyfranogwr arall, a gwblhaodd y cwrs ychydig ar ôl ei ben-blwydd yn 80 oed, fynd ymlaen i fod yn gynorthwyydd dysgu gwirfoddol a helpodd oedolion eraill i wella’u medrau hanfodol. Helpodd dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig oedolion o’u cymunedau i ymchwilio i gyfleoedd dysgu newydd a manteisio arnynt. Mae’r dysgwyr hyn hefyd wedi annog menywod i ymwneud mwy â dysgu eu plant. Roedd cynrychiolydd arall dysgu yn y gymuned yn gallu cynghori ffrindiau’n well ynglŷn â chyrsiau a chyfleoedd dilyniant ar gyfer eu plant hŷn.

32 Yn yr un modd, mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a TUC Cymru yn hyfforddi dysgwyr yn y gweithle i weithredu fel cynrychiolwyr dysgu Undebau i hyrwyddo dysgu i gyflogwyr a helpu cyflogeion i drefnu dysgu sy’n berthnasol iddyn nhw. Mae cynrychiolwyr dysgu Undebau wedi helpu gweithwyr o Nepal sy’n gweithio mewn siop fara i gael tystysgrifau Hylendid Bwyd trwy gyfrwng y Nepaleg a gwella’u medrau Saesneg. Bu dysgwr arall, sy’n gweithio yn y gwasanaeth sifil, yn cymryd rhan mewn ystod o gyrsiau, gan gynnwys dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru a dosbarthiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Arweiniodd hyn at berfformiad gwell yn y gwaith. Symudodd ymlaen i ddefnyddio’i fedrau TGCh newydd fel hyfforddwr rygbi yn ei gymuned leol. Mae cynrychiolwyr dysgu yn Dŵr Cymru wedi sefydlu sioeau dysgu pen ffordd a threfnu asesiadau cychwynnol ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru. Arweiniodd hyn at niferoedd mwy yn dilyn cyrsiau sgiliau hanfodol ar draws pob lefel yn y cwmni. O ganlyniad, mae cyflogeion wedi gwella’u medrau llythrennedd a chyfrifiadur yn ogystal â gwella’u golwg gyffredinol ynglŷn â’u gwaith.

33 Mae Dinas a Sir Abertawe wedi sefydlu fforwm addysg oedolion. Mae’r dysgwyr sy’n rhan o’r fforwm wedi cymryd cyrsiau mewn medrau eirioli, trefnu a rheoli cyfarfodydd a chadw cofnodion. Mae tri o’r dysgwyr hyn wedi gwneud defnydd da o’r dysgu hwn i sefydlu eu dosbarthiadau eu hunain mewn gemwaith, tecstilau a gleinwaith. Mae aelodau eraill y grŵp wedi defnyddio’r hyfforddiant hwn i weithio fel gwirfoddolwyr gydag elusennau lleol.

34 Mae’r dysgwyr sy’n trefnu’r dosbarth gleinwaith wedi sefydlu dosbarth egnïol yn effeithiol ar gyfer dysgwyr eraill. Maent yn trefnu lleoliadau, rheoli cyllid, trefnu bod ystod eang o ddeunyddiau ar gael i ddysgwyr, recriwtio dysgwyr, cynnig syniadau a hyfforddi dysgwyr eraill. Mae’r dysgwyr sy’n mynychu’r dosbarth yn gwerthfawrogi’r cyfle i reoli’r hyn maent yn ei ddysgu. Mae’r dysgwyr yn gwneud beth bynnag maent yn ei ddymuno. Nid yw eu syniadau’n cael eu cyfyngu gan gynlluniau’r tiwtor, ond yn hytrach mae’r cynlluniau’n eu cefnogi. Maent yn dylanwadu ar amseriadau’r dosbarth a’r trefniadau ar gyfer gwyliau neu gau. Mae’r dysgwyr hyn hefyd yn trefnu achlysuron cymdeithasol ac yn mwynhau’r cyswllt cymdeithasol a’r gwmnïaeth a gynigir gan y dosbarth.

35 Mae Sefydliad y Merched yn gweithio’n dda â Chyngor Sir Gâr i gynnal y cwrs ‘Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus’ fel rhan o’r rhaglen ‘Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth’ (gweler atodiad 3). Mae’r dysgwyr wedi defnyddio’u medrau a’u gwybodaeth newydd yn dda i drefnu ystod o weithgareddau, yn cynnwys Uwchgynhadledd menywod yn Abertawe, drama am y swffragetiaid, ymgyrch Achub y Gwenyn a digwyddiad cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn thrais yn erbyn menywod.

36 Mae aelodau U3A Abertawe (gweler atodiad 1) yn trefnu ystod eang o gyrsiau, dosbarthiadau a gweithgareddau yn wirfoddol, ac yn cyflwyno’r holl ddysgu eu hunain. Maent yn trefnu lleoliadau, rheoli cyllid ac yn gyfrifol am yr addysgu a’r dysgu. Mae’r grŵp yn Abertawe yn manteisio ar arweiniad ac adnoddau sydd ar gael gan y Third Age Trust i gyflwyno gweithgareddau dysgu ac i reoli ei hun. Mae’r pwyllgor yn Abertawe yn darparu help a chefnogaeth i aelodau sydd eisiau sefydlu gweithgareddau neu grwpiau dysgu newydd. Mae’n darparu gwybodaeth am leoliadau, ffioedd a chostau cychwyn, a sut i drefnu addysgu a dysgu. Mae’r grŵp yn dod â phobl ag ystod o fedrau ac arbenigedd at ei gilydd. O ganlyniad, gellir defnyddio’r adnoddau un er budd corff ehangach o ddysgwyr. Yn ogystal, mae’r pwyllgor yn Abertawe yn gwneud gwaith datblygu strategol. Mae wedi nodi ardaloedd o’r ddinas sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran aelodau o U3A Abertawe. Mae’r pwyllgor hwn yn defnyddio gwybodaeth yn dda i hyrwyddo dysgu i bobl hŷn sy’n byw yn yr ardaloedd hynny.

37 Yn Nhorfaen, mae’r awdurdod lleol wedi sefydlu seilwaith ar gyfer cefnogi grwpiau o ddysgwyr sydd eisiau sefydlu eu dosbarth neu weithgareddau dysgu eu hunain. Mae wedi cynhyrchu llawlyfr i ddysgwyr sy’n cynnwys gwybodaeth berthnasol fel gweithdrefnau iechyd a diogelwch, y cyfleusterau a’r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr, gwybodaeth am ganolfannau addysg a manylion am grwpiau defnyddwyr y canolfannau hyn. O ganlyniad, mae’r awdurdod lleol yn llwyddo i helpu dosbarthiadau hirsefydlog drosglwyddo i fod yn grwpiau dysgu annibynnol. Er enghraifft, yng Nghroesyceiliog, mae dysgwyr yn trefnu eu dosbarthiadau eu hunain mewn dyfrlliwiau, Ffrangeg a chrefftau pren.

38 Yn amlwg, mae dysgwyr yn cael ystod o fuddion o fod yn gysylltiedig â threfnu eu dysgu eu hunain. Mae’r darparwyr y soniwyd amdanynt uchod yn rhoi blaenoriaeth i helpu dysgwyr drefnu eu dysgu eu hunain. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw darparwyr DOG yn gwneud digon i helpu dysgwyr sefydlu eu dosbarthiadau a’u gweithgareddau eu hunain, neu i ddefnyddio’u dysgu mewn cyd-destun ehangach. At ei gilydd, mae darparwyr yn rhoi blaenoriaeth i drefnu rhaglen o ddysgu neu weithgareddau ar gyfer dysgwyr, yn lle eu helpu i wneud hyn drostynt eu hunain. Nid

oes seilwaith yn ei le gan y rhan fwyaf o ddarparwyr DOG awdurdodau lleol ac addysg bellach i helpu dysgwyr drefnu eu dysgu eu hunain. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael i ddysgwyr am leoliadau, sut i drefnu a chyflwyno addysgu a dysgu, neu sut i ariannu eu dosbarthiadau neu wneud trefniadau ar gyfer gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac yswiriant. Dim ond ychydig o ddarparwyr sy'n cynnig hyfforddiant ffurfiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth.

**Deilliannau dysgwyr**

39 Mae gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn cynhyrchu deilliannau i ddysgwyr sy'n oedolion sy'n wahanol i gyfnodau eraill yn y sector ôl-16. Mae llawer o oedolion yn cymryd rhan mewn DOG fel ffordd o wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau. Mae dysgwyr sy'n oedolion yn gwella'u medrau personol a chymdeithasol a'u heffeithiolrwydd personol o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella dysgwyr. Defnyddiant eu dysgu'n dda i wella eu gwaith a'u bywydau.

40 Mae dysgwyr yng Nghymdeithas Addysg y Gweithwyr yn nodi bod gwneud penderfyniadau am eu dysgu wedi'u helpu i ddatblygu ystod o wybodaeth am fedrau ac agweddau. Maent wedi gwella'u pendantrwydd ac wedi dysgu sut i ymdrin â pherthnasoedd ac ymddygiadau gwahanol. Maent wedi gwella'u gallu i reoli eu bywydau eu hunain, ac wedi dysgu sut i reoli'r gofynion a wneir arnynt gan eraill. Maent hefyd wedi dysgu ystod o fedrau yn cynnwys medrau trefnu, cyfathrebu a chyd-drafod. Yn ogystal, maent wedi dysgu sut i hyrwyddo dysgu i bobl eraill.

41 Mae llawer o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn fforymau dysgwyr yng Nghaerdydd ac Abertawe yn adrodd eu bod wedi gwella'u hiechyd corfforol a meddyliol o ganlyniad i wneud hynny. Maent yn ystyried eu cyfranogiad fel buddsoddiad personol yn eu cwricwlwm. Mae'r buddsoddiad hwn yn creu ymdeimlad cryf o berchenogaeth o'u dysgu, ac mae'n arwain at fedrau a lles gwell. Mae cael eu cynnwys wrth ffurfio'u dysgu hefyd yn cymell dysgwyr i annog pobl eraill i ymgymryd â dysgu. Mae'r dysgwyr hyn hefyd yn gwella'u medrau a'u gwybodaeth yn eu pynciau dewisedig.

42 Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull gwahanol o gynllunio DOG yn ddiweddar. Mae wedi lleihau nifer y cyrsiau y mae'n eu cynnig i ddysgwyr ac wedi dechrau cyfarfod â grwpiau sydd eisoes yn bodoli yn y gymuned i gynllunio dysgu sy'n fwy perthnasol i'w hanghenion. Mae hwn yn ddull effeithiol o gynnwys dysgwyr wrth gynllunio a ffurfio'u cwricwlwm.

43 Er enghraifft, mae staff yr awdurdod lleol wedi gweithio gyda gwirfoddolwyr yn Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau i gynllunio a chyflwyno cwrs i helpu gwirfoddolwyr gynllunio eu curriculum vitae eu hunain. Gwnaed hyn ar y cychwyn i helpu dysgwyr fodloni gofynion y wefan paru â swydd gyffredinol (https://www.gov.uk/chwilio-am-swydd). Ers hynny, mae'r dysgwyr hyn wedi cymryd rhan mewn cwrs prosesu geiriau ac mae dysgwyr eraill wedi cymryd rhan mewn cyrsiau hylendid bwyd. O ganlyniad, mae un dysgwr wedi dod yn gyfarwyddwr yr ymddiriedolaeth datblygu ers hynny, ac mae dysgwyr eraill wedi symud ymlaen i fod yn wirfoddolwyr yn y ffreutur yng nghanolfan gymunedol yr Ymddiriedolaeth. Mewn achos arall, gweithiodd yr awdurdod lleol gyda chanolfan waith a chyflogwr lleol i drefnu cwrs i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau er mwyn datblygu medrau mewn hylendid bwyd a gwasanaeth

cwsmeriaid. Cwrs wythnos oedd hwn, mewn lleoliad yn y gwaith, ac mae tri o'r saith dysgwr wedi cael cyflogaeth o ganlyniad i hynny.

44 Mae dysgwyr sy'n dilyn rhaglen Sefydliad y Merched 'Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth' yn caffael y medrau i chwarae rolau amlycach mewn bywyd cyhoeddus. Maent yn gwneud cynnydd cadarnhaol iawn. Mae llawer ohonynt yn symud ymlaen o'r rhaglen i amryw o gyrchfannau a gweithgareddau. Fe waeth un aelod sefyll fel aelod seneddol yn yr etholiad diwethaf, ac mae rhai eraill wedi dod yn aelodau o gyrff llywodraethu ysgolion, neu bartneriaethau cymunedol. Symudodd un dysgwr, o Zimbabwe yn wreiddiol, ymlaen i gwrs gradd mewn datblygu cymunedol. Aeth ymlaen wedyn i fod yn gadeirydd fforwm tai trigolion duon a lleiafrifoedd ethnig Casnewydd. Mae dysgwyr arall o'r grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn weithgar iawn yn y gymuned leol. Mae'n llywodraethwr ysgol ac yn trefnu ysgol Sadwrn i helpu plant a rhieni o Bangladesh ddeall eu hunaniaeth a'u tarddiad ethnig.

45 Canfu'r arolygwyr mai ychydig iawn o ddarparwyr DOG sydd â systemau ffurfiol i gofnodi a chydnabod cyflawniadau a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr. O ganlyniad, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gallu datblygu portffolios neu gofnodion o gyflawniad a chyrhaeddiad sy'n dangos eu profiad ac ystod y deilliannau personol a chymdeithasol y maent wedi'u cyflawni.

## Y cwricwlwm, adnoddau a chyfleusterau

46 Mae darparwyr DOG yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd effeithiol i gynnwys dysgwyr wrth ffurfio'r cwricwlwm.

47 Mae pob un o'r darparwyr DOG yn defnyddio technegau wyneb yn wyneb yn dda gyda dysgwyr sy'n oedolion i'w helpu i ffurfio'r cwricwlwm. Mae llawer o ddarparwyr yn gwneud defnydd da o fforymau dysgwyr neu grwpiau ffocws i drafod y ddarpariaeth gyda dysgwyr ac addasu'r cwricwlwm i fodloni'u hanghenion. Er enghraifft, fe wnaeth partneriaeth DOG Pen-y-bont ar Ogwr alw cyfarfod a fynychwyd gan ryw 40 o ddysgwyr. Roedd y dysgwyr yn gallu cyfrannu syniadau ar gyfer y math o ddosbarthiadau y byddent yn dymuno'u gweld yn cael eu trefnu.

48 Yn Wrecsam, cynhaliodd y bartneriaeth DOG ystod o weithgareddau ymgynghori gyda rhyw 250 o oedolion nad oeddent yn cymryd rhan mewn dysgu. Cynhaliodd y staff ddigwyddiadau ym mhob un o lyfrgelloedd Wrecsam, swyddfa Gyrfa Cymru yn Wrecsam, ac mewn lleoliadau cymunedol. Yn ogystal, cynhaliodd y staff yng Ngholeg Cambria arolwg o gyfranogwyr a fynychodd digwyddiad amrywiaeth cymunedol. Hefyd, trefnodd y bartneriaeth 36 o grwpiau ffocws yn cynnwys 250 mwy o ddysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned. O ganlyniad, mae'r bartneriaeth wedi gallu nodi anghenion dysgu oedolion yn ardal Wrecsam a chynhyrchu cynllun cwricwlwm ar sail y wybodaeth a gasglwyd o'r gweithgareddau hyn. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i roi dysgu mewn cyd-destun ac amrywio'r ddarpariaeth y mae'n ei chynnig i grwpiau dysgwyr gwahanol.

49 Mae partneriaeth Dysgu Rhanbarthol De Orllewin Cymru wedi trefnu dwy gynhadledd i ddysgwyr o'r chwe ardal awdurdod lleol y mae'n eu gwasanaethu. Mae'r gynhadledd yn darparu llwyfan defnyddiol i ddysgwyr gynnig syniadau i ddarparwyr DOG am weithgareddau'r cwricwlwm. Mae'r gynhadledd hefyd yn darparu

gwybodaeth i is-grŵp DOG y bartneriaeth i helpu datblygu trosolwg rhanbarthol a strategol ar gyfer cynllunio darpariaeth ar draws y chwe phartneriaeth yn yr ardal. Mae'r is-grŵp hefyd wedi gwneud defnydd da o'r wybodaeth i roi cynllun gweithredu blynyddol ar waith ar gyfer DOG, sy'n cynnwys parhau i gynnwys dysgwyr. Felly, caiff dysgwyr effaith bwysig ar gynllunio darpariaeth ar draws ardal ehangach na'u hardal leol eu hunain.

50 Mae fforymau dysgwyr, grwpiau ffocws a holiaduron hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddarparwyr DOG am ansawdd adnoddau, lleoliadau a chyfleusterau. Yn gyffredinol, mae darparwyr DOG yn ymateb yn dda i farnau dysgwyr am y materion hyn, ac yn buddsoddi mewn adnoddau newydd neu'n newid lleoliadau pan fyddant yn anaddas.

## Dysgu yn y gwaith

51 Ymwelodd arolygwyr ag wyth o ddarparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG) fel rhan o'r arolwg hwn. Fe wnaethant gynnal trafodaethau manwl â sampl gynrychioliadol o staff a rhyw 45 o ddysgwyr. Ymatebodd saith o ddarparwyr DYYG i arolwg ar-lein a gynhaliodd Estyn ym Medi 2013. Hefyd, aeth Estyn ati i adolygu sampl o adroddiadau arolygu DYYG i arfarnu pa mor dda y mae darparwyr yn y sector yn defnyddio gweithgareddau cynnwys dysgwyr i lywio cynllunio gwelliant.

52 Yn gyffredinol, mae darparwyr DYYG wedi ymateb yn dda i strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru. Maent yn defnyddio arweiniad Llywodraeth Cymru yn dda i lywio'u strategaethau a'u gweithgareddau cynnwys dysgwyr eu hunain. O ganlyniad, mae darparwyr wedi gallu gwneud gwelliannau i ansawdd yr addysgu a'r dysgu, y cwricwlwm a chymwysterau, adnoddau a chyfleusterau. Hefyd, mae'r darparwyr wedi gweithio'n dda â dysgwyr i lywio'u cwricwlwm ac mae dysgwyr wedi datblygu ystod o fedrau personol a chymdeithasol.

53 Canfu'r arolygwyr fod gan ddarparwyr DYYG drefniadau ar gyfer helpu dysgwyr ffurfio'u cwricwlwm sy'n wahanol i gyfnodau eraill yn y sector ôl-16. Natur DYYG yw bod dysgwyr yn aml yn dysgu ar wahân i'w gilydd. Felly, mae darparwyr DYYG yn cael llai o gyfleoedd i weithio gyda dysgwyr mewn grwpiau. O ganlyniad, nid yw'r defnydd o gynrychiolwyr dysgwyr mor gyffredin ag mewn lleoliadau eraill. Fodd bynnag, mae darparwyr DYYG yn gwneud defnydd priodol o gamau yn nhaith y dysgwr, fel sefydlu, asesiad cychwynnol ac asesu parhaus a chyfweliadau ymadael, i wrando ar farnau dysgwyr a gwneud yn siŵr eu bod yn llywio'r cwricwlwm. Mewn llawer o achosion, ymgynghorwyr neu aseswyr hyfforddiant yw'r sianel bwysicaf sydd gan ddysgwyr ar gyfer cyfleu'u barnau i'r darparwr, gan y nhw sydd â'r cyswllt mwyaf â'r dysgwr.

54 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg cenedlaethol Llais y Dysgwr yn Ionawr a Chwefror 2013. Cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 13,266 o ddysgwyr yn y gwaith. At ei gilydd, roedd 90% o ddysgwyr o'r farn fod eu profiad cyffredinol yn dda neu'n dda iawn. Yn yr un modd, fe wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr ddweud bod eu darparwyr yn dda neu'n dda iawn ar draws pob agwedd ar yr arolwg. Yn ystod arolygiad o gonsortiwm DYYG Llandrillo Menai (Tachwedd 2013), canfu arolygwyr

fod y consortiwm yn gwneud defnydd da o ganlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Cymru. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn ymwybodol o unrhyw welliannau a wnaed neu gamau a gymerwyd o ganlyniad i arolwg Llais y Dysgwr Cymru.

55 Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, canfu'r arolygwyr fod hyfforddiant Acorn yn gwneud defnydd da o'i ganlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Cymru i nodi meysydd i'w gwella, er enghraifft, i'w broses sefydlu. Mae hefyd wedi gwella ffyrdd o gyfathrebu â dysgwyr ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o weminarau i gynnal sgyrsiau ar-lein â dysgwyr. Mae'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r datblygiad hwn. Mae'n cwtogi ar amser teithio, ac yn eu galluogi i ofyn cwestiynau a rhannu gwybodaeth gyda dysgwyr eraill ar-lein.

**Strategaethau a gweithgareddau cynnwys dysgwyr**

56 Mae strategaeth ffurfiol ar gyfer cynnwys dysgwyr gan bob un o'r darparwyr a ymatebodd i'r arolwg. Defnyddiant y strategaethau hyn yn briodol i arwain y gwaith a wnânt gyda dysgwyr i'w cynnwys wrth ffurfio'u cwricwlwm. Ym mhob achos, mae strategaethau cynnwys dysgwyr yn amlinellu nodweddion canlynol y darparwr:

- ymrwymiad i wrando ar ddysgwyr;
- ystod o weithgareddau a ddefnyddir i gael barnau dysgwyr; a
- defnydd o farnau dysgwyr i lywio cynllunio gwella ansawdd.

57 Mae'r darparwyr yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu eu strategaethau cynnwys dysgwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn berthnasol ac yn briodol. Mae adroddiadau ar ddarpariaeth DYYG ers Medi 2010 yn cadarnhau bod darparwyr, yn gyffredinol, yn defnyddio'u strategaethau a'u gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn dda i lywio'u cynlluniau gwella ansawdd.

58 Mae Hyfforddiant Torfaen yn gwneud defnydd da o'i strategaeth cynnwys dysgwyr i gynnig cyfleoedd da i ddysgwyr roi adborth a dweud eu barnau am ansawdd y ddarpariaeth a gânt. Mae'r darparwr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arolygon, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r staff yn arfarnu'r adborth hwn yn dda ac yn gweithredu arno'n brydlon. Mae'r darparwr yn cyhoeddi canlyniadau a chamau gweithredu o'r broses arfarnu drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar hysbysfyrddau 'Fe ddwedoch, fe wnaethom ('You said, we did').

59 Mae strategaeth cynnwys dysgwyr Hyfforddiant ISA yn amlinellu bwriadau'r darparwr i:

- gynnwys dysgwyr drwy sicrhau ystod eang o ddulliau i ddysgwyr, staff a chyflogwyr i gyfrannu eu barnau mewn ystod o ffyrdd fel bod pawb yn gallu manteisio;
- rhannu deilliannau gweithgareddau cynnwys gyda'n staff, cyflogwyr a rheolwyr drwy'r cylch ansawdd, a gyda'n dysgwyr drwy ystod o ddulliau; a
- gweithredu ar y deilliannau a gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae'r darparwr wedi'i wneud o ganlyniad i'w sylwadau a'u hadborth.

60 Mae Hyfforddiant ISA yn defnyddio ystod o weithgareddau cynnwys dysgwyr, yn cynnwys holiaduron, arsylwadau o ansawdd, cynadleddau, cynrychiolwyr llais y dysgwr a gweithgareddau cyfoethogi. Mae trefniadau da gan y darparwr ar gyfer

integreiddio barnau dysgwyr i'w systemau ansawdd. Mae'n dadansoddi ac yn cofnodi adborth gan ddysgwyr, ac yn ei ddefnyddio'n dda i lywio cynlluniau datblygu ansawdd.

61 Yn y Cynghrair Ansawdd Sgiliau, mae'r darparwr arweiniol – Coleg Caerdydd a'r Fro – wedi datblygu strategaeth ar gyfer cynnwys dysgwyr ac ystod o adnoddau ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwefan llais y dysgwr a chwrs hyfforddi i ddysgwyr sydd eisiau bod yn gynrychiolwyr cyrsiau. Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o'i strategaeth a'i adnoddau i wneud gwelliannau i'w ddarpariaeth ei hun. Ymatebodd y coleg yn dda i bryderon dysgwyr ynglŷn ag ansawdd addysgu medrau hanfodol trwy benodi tiwtor newydd. Arweiniodd hyn at gyfraddau llwyddo gwell. Yn yr un modd, mae'r coleg wedi newydd ei broses sefydlu i'w gwneud yn fwy perthnasol i grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn trefnu bod y strategaeth a'r adnoddau ar gael i ddarparwyr eraill yn y consortiwm.

62 Canfu'r arolygwyr fod y rhan fwyaf o'r darparwyr DYYG yr ymwelwyd â nhw, a'r rheini a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, yn gwneud defnydd priodol o holiaduron ac arolygon i gael barnau dysgwyr ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth ac i wneud newidiadau i'r ddarpariaeth.

63 Mae Hyfforddiant ITEC wedi datblygu system electronig bwrpasol ar gyfer casglu a dadansoddi barnau dysgwyr – IDRIS. Gall dysgwyr gynnig eu barnau gan ddefnyddio smartffon neu liniadur. Mae IDRIS yn cipio cyfraddau boddhad dysgwyr ac yn monitro perfformiad a gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r system yn galluogi dysgwyr i gwblhau arfarniadau ar dri phwynt penodol ar eu taith fel dysgwr, gan ddefnyddio holiaduron sy'n hawdd eu deall. Mae IDRIS yn mesur cyfraddau ymateb a chyfraddau boddhad. Bydd y darparwr yn adrodd am gyfraddau boddhad ar gyfer ei holl ganolfannau hyfforddi drwy ei fewnrwyd. Mae cydlynwyr y canolfannau, rheolwyr ansawdd ac uwch reolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro perfformiad a boddhad cwsmeriaid ac i wneud gwelliannau i'r ddarpariaeth.

64 Mae tua hanner y darparwyr yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio fforymau dysgwyr neu gynrychiolwyr dysgwyr i gael barnau dysgwyr. Mae Hyfforddiant Torfaen wedi annog ystod o ddysgwyr o lwybrau hyfforddi gwahanol, ac ar lefelau gwahanol, i fynychu cyfarfodydd fforymau dysgwyr. Mae'r fforymau hyn yn trafod ystod o faterion a phroblemau ac yn ystyried sut y gall gwelliannau gael eu gwneud i'r ddarpariaeth a chymwysterau. Bydd Hyfforddiant ITEC yn cynnal fforymau dysgwyr ym mhob un o'i ganolfannau, ac anogir pob dysgwr i fynychu. Mae'r rheolwyr yn defnyddio ystod o gwestiynau i gasglu barnau dysgwyr. Mae Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru yn defnyddio fforymau dysgwyr hefyd fel modd o gasglu barnau dysgwyr am ansawdd ei ddarpariaeth. Mae rheolwyr y cwricwlwm yn Academi Sgiliau'r De Orllewin yn cyfarfod â phob un o'r dysgwyr i drafod y cwricwlwm, ymddygiad, parch a materion diogelu. Defnyddir y wybodaeth o'r cyfarfodydd hyn gan swyddog llais y dysgwr i lywio cynllun gweithredu llais y dysgwr ac i fynd i'r afael â materion yn gyflym.

65 Yn Hyfforddiant ISA, mae dysgwyr yn gweithio fel rhan o dîm cynrychioliadol Llais y Dysgwr. Maent yn gweithredu fel sianel gyfathrebu rhwng dysgwyr a thîm Llais y Dysgwr y darparwyr. Mae'r darparwr yn cynnig cyfnod sefydlu a hyfforddiant i gynrychiolwyr Llais y Dysgwr, sy'n eu helpu i ddatblygu'u medrau a hyrwyddo pwysigrwydd cynnwys dysgwyr.

66 Yn gyffredinol, mae gwasgariad daearyddol dysgwyr yn y gwaith yn cyfyngu ar y defnydd o fforymau dysgwyr neu gynrychiolwyr dysgwyr. Mae'n anodd i ddysgwyr deithio i gyfarfod ei gilydd a chymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.

67 Canfu'r arolygwyr fod darparwyr DYYG yn gwneud defnydd da o ystod o ffyrdd o adrodd canlyniadau gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn ôl i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, posteri, hysbysfyrddau, cylchlythyrau a gwefannau a thrwy eu llwyfannau dysgu ar-lein. O ganlyniad, roedd mwyafrif y dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn yr oedd eu darparwr wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion yr oeddent wedi'u codi.

68 Mae gan bob un o'r darparwyr a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, neu'r darparwyr yr ymwelodd arolygwyr â nhw, drefniadau priodol ar gyfer defnyddio deilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i lywio hunanasesu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae uwch reolwyr yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu effaith gweithgareddau cynnwys dysgwyr er mwyn mesur cynnydd yn erbyn targedau yn eu cynlluniau datblygu ansawdd. Er enghraifft, yn Academi Sgiliau'r De Orllewin, mae'r rheolwyr yn adolygu materion a godir gan ddysgwyr bob pythefnos er mwyn ymateb yn gyflym ac i fonitro cynnydd o ran cynllun gweithredu Llais y Dysgwr y consortia. Mae hyn wedi helpu gwella cyfraddau cadw ar gyfer dysgwyr yn y gwaith a myfyrwyr addysg bellach.

69 At ei gilydd, canfuom fod darparwyr DYYG yn defnyddio strategaethau a gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn dda, gan gynnwys arolwg cenedlaethol Llais y Dysgwr Cymru, i sicrhau gwelliannau i:

- ddeilliannau dysgwyr;
- ansawdd addysgu a hyfforddi;
- taith y dysgwr; a'r
- cwricwlwm, cyfleusterau ac adnoddau.

70 Yn ogystal, mae darparwyr DYYG yn defnyddio ystod o weithgareddau cyfoethogi i gymell dysgwyr i gymryd mwy o ran yn eu rhaglenni hyfforddi ac i wneud gwelliannau i'w cwricwlwm. Mae gweithgareddau cyfoethogi'n cynnwys dysgwyr yn gweithredu fel 'athrawon cymheiriaid', a chymryd rhan mewn cystadlaethau sy'n dangos ansawdd gwaith dysgwyr a lefel eu medrau. Mae ychydig o ddarparwyr hefyd yn cynnwys dysgwyr wrth gynllunio a ffurfio'r digwyddiadau hyn.

## Deilliannau dysgwyr

71 Yn gyffredin â lleoliadau eraill yn y sector ôl-16, roedd darparwyr DYYG yn aneglur ynglŷn â'r graddau yr oedd gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn helpu gwella cyrhaeddiad a chyfraddau llwyddo dysgwyr. Roedd ychydig o'r darparwyr yr ymwelwyd â nhw o'r farn fod dysgwyr a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys yn gwella'u cyrhaeddiad a'u cyfraddau llwyddo. At ei gilydd, fodd bynnag, roedd y darparwyr o'r farn na ellid priodoli gwelliannau mewn cyrhaeddiad a chyfraddau llwyddo i gynnwys dysgwyr wrth ffurfio'u cwricwlwm yn unig. Mae ffactorau eraill fel parodrwydd i ymgysylltu, hyder, a'r gallu i gyfleu syniadau yn cyfrannu at wella cyrhaeddiad a chyfraddau llwyddo ochr yn ochr â chynnwys dysgwyr.

72 Er hyn, roedd cynnwys dysgwyr wrth ffurfio'u cwricwlwm yn cael buddion cadarnhaol ar eu medrau personol a chymdeithasol. Yn Hyfforddiant ISA, roedd pob un o'r dysgwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr o'r farn eu bod wedi cynyddu eu lefelau hyder, bod ganddynt fedrau adeiladu tîm gwell, a'u bod yn gallu rheoli gwrthdaro yn well.

73 Adroddodd y darparwyr hynny a ymatebodd i'r arolwg ar-lein fod dysgwyr yn datblygu ystod o fedrau a gwybodaeth a oedd yn eu helpu yn eu bywydau gweithio bob dydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyfathrebu a chyd-drafod;
- pendantrwydd;
- sut i gadeirio cyfarfodydd;
- gweithio gydag eraill; a
- sut i weithio gyda phobl o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol.

74 Mae darparwyr yn cydnabod y medrau a'r wybodaeth y bydd dysgwyr yn eu caffael drwy gael eu cynnwys gan y defnydd o bortffolios, dyfarniadau, cyhoeddi newyddion da ar eu gwefan a thrwy alluogi dysgwyr i ddefnyddio tystiolaeth am y gweithgareddau hyn i gyfrannu at eu hasesiadau a'u cymwysterau.

75 Fodd bynnag, er bod gan ddarparwyr DYYG ddealltwriaeth glir o fuddion cynnwys dysgwyr, mae eu prif ffocws ar gyfer y gwaith hwn ar y broses o gynnwys dysgwyr i wella ansawdd y ddarpariaeth. Ychydig o ddarparwyr sydd â ffocws penodol ar effaith y gwaith hwn ar gyfer dysgwyr unigol.

## Ansawdd addysgu a dysgu

76 Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, roedd dysgwyr yn gallu dylanwadu ar ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi yn uniongyrchol.

77 Ar lefel sylfaenol, roedd darparwyr yn gwneud defnydd da o adborth gan ddysgwyr ynglŷn ag ansawdd yr addysgu i lywio'r broses hunanasesu a gosod targedau ar gyfer gwella'r addysgu. Yn yr un modd, mae darparwyr yn defnyddio adborth dysgwyr o asesu yn briodol hefyd i deilwra cymorth ac addysgu i ddysgwyr unigol. Mae darparwyr hefyd yn defnyddio adborth gan ddysgwyr yn dda i wella hyfforddiant a datblygiad staff i ddefnyddio dulliau addysgu fel e-ddysgu neu weminarau sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn fwy priodol.

78 Mewn ychydig o achosion, mae adborth gan ddysgwyr wedi helpu darparwyr i gyflwyno ffyrdd newydd o hyfforddi dysgwyr. Mae Acorn Learning Solutions wedi cyflwyno dysgu ar-lein o ganlyniad i adborth gan ddysgwyr. Mae hyn wedi cwtogi ar yr amser y bydd dysgwyr yn ei dreulio yn teithio. Mae Hyfforddiant ISA wedi cyflwyno dulliau, offer a thechnegau addysgu gwahanol ac yn gwneud mwy o ddefnydd o ddeunyddiau dysgu rhyngweithiol electronig o ganlyniad i adborth gan ddysgwyr. Hefyd, mae'r darparwr wedi ail-ddylunio cynnwys a mynychder sesiynau a addysgir mewn meysydd galwedigaethol. Mae hefyd wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio WiFi i gynnig mynediad amser real i ddysgwyr i adnoddau dysgu ychwanegol yn y gweithle.

79 Yn Hyfforddiant ITEC, caiff dysgwyr eu cynnwys yn y broses o recriwtio tiwtoriaid. Rhoddir y cyfle iddynt eistedd i mewn yn ystod camau penodol o'r broses gyfweld pan fydd cyfweleion yn cyflwyno micro wers addysgu. Bydd dysgwyr yn arfarnu'r wers gan ddefnyddio ystod o feini prawf. Maent hefyd yn arfarnu'r hyn maent wedi'i ddysgu o'r wers a sut mae wedi gwella eu dealltwriaeth o'r pwnc. At hynny, mae dysgwyr yn rhoi arfarniad ynglŷn â ph'un a fyddent yn cyflogi'r hyfforddwr ai peidio.

**Taith y dysgwr**

80 Mae llawer o ddarparwyr o'r farn fod gwrando ar farnau ac awgrymiadau dysgwyr wedi'u helpu i wella taith y dysgwr.

81 Mae un darparwr yn defnyddio e-bortffolio i olrhain cynnydd dysgwyr yn fwy cywir. Mae'r un darparwr wedi diwygio ei raglen sefydlu i'w gwneud yn fyrrach ac wedi lleihau maint y gwaith papur cysylltiedig. Mae hyn wedi gwella profiad sefydlu'r dysgwyr. O ganlyniad, mae llai o ddysgwyr yn gadael y rhaglen yn gynnar. Yn yr un modd, mae darparwr arall wedi diwygio ei raglen sefydlu er mwyn lleihau gwaith papur a'i wneud yn fwy hwylus i ddysgwyr. Mae darparwr arall wedi diwygio'i lawlyfrau ar gyfer dysgwyr. Mae'r llawlyfrau hyn yn rhoi cyngor a gwybodaeth bwysig i ddysgwyr.

82 Mae ychydig o ddarparwyr wedi gwella'r cymorth i ddysgwyr er mwyn eu galluogi i aros ar eu rhaglenni yn dilyn adborth gan ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cymorth un i un gan fentoriaid neu anogwyr dysgu, clybiau brecwast, gweithdai cyfathrebu a meithrin hyder a gweithgareddau rhagflas cyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â hyfforddiant yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'r darparwyr hyn wedi gwella'u cyfraddau cadw.

83 Mae ychydig o ddarparwyr yn gwneud defnydd da o gyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau ar-lein i gyfathrebu â dysgwyr, ac i ymateb i'w ceisiadau, ymholiadau a chwestiynau wrth iddynt godi. Mae hyn wedi gwella hwylustod cysylltu â defnyddwyr y tu allan i amser cyswllt wyneb yn wyneb.

**Y cwricwlwm, cyfleusterau ac adnoddau**

84 Mae dysgwyr wedi gallu dylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm mewn amryw o ffyrdd o ganlyniad i gyfrannu eu barnau a'u safbwyntiau.

85 Mae Hyfforddiant Torfaen yn gweithio'n dda â dysgwyr i adolygu ac addasu'r cwricwlwm a chymwysterau. Mewn un achos, gweithiodd y dysgwyr yn dda gyda chyrff dyfarnu i adolygu a diwygio cymwysterau coginio. O ganlyniad, bydd cymwysterau mwy addas gan raddedigion yn y dyfodol. Mewn achos arall, gofynnodd dysgwyr yn Sir Fynwy am hyfforddiant lleol trwy Gyrfa Cymru. I ymateb i hynny, gweithiodd Hyfforddiant Torfaen gyda Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Fynwy i drefnu a chyflwyno cwrs cyn-ymgysylltu i 10 o ddysgwyr gerllaw eu cartrefi. O ganlyniad, llwyddodd pob un o'r dysgwyr i symud ymlaen i gwrs lefel 1.

86 Yn Hyfforddiant ISA, mae dysgwyr wedi gallu dylanwadu ar strwythur diwrnodau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith i ddatblygu'u medrau technegol. Mae Hyfforddiant ITEC wedi sefydlu grŵp Rhieni Ifanc, sydd wedi helpu'r dysgwyr hyn aros mewn dysgu, a Grŵp Dysgu fel Teulu sy'n helpu rhieni a theidiau a neiniau i gyfrannu at ddysgu pobl ifanc.

87 Yn Academi Sgiliau Cymru, gofynnodd dysgwyr am fwy o gymorth i ddatblygu'u medrau mewn Saesneg a mathemateg. Ymatebodd yr Academi Sgiliau yn gadarnhaol i hyn drwy sefydlu dosbarthiadau ychwanegol trwy gynnwys datblygu'r medrau hyn mewn pynciau eraill.

88 Mewn ychydig o ddarparwyr, mae dysgwyr wedi gallu cyd-drafod newidiadau o ran cyflwyno rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys trefnu asesiadau, cyfran gwaith theori i waith ymarferol, a chysoni amserau dechrau a gorffen yn ôl amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus.

89 Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio gweithgareddau cyfoethogi, fel cystadlaethau medrau, yn dda i gymell ac ysbrydoli dysgwyr. Mewn un achos, gweithiodd y darparwr a dysgwyr yn dda â'i gilydd i gynllunio strwythur cystadlaethau a'r categorïau amrywiol yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt. Mae dysgwyr o'r farn fod y cystadlaethau hyn yn effeithiol o ran cynyddu eu hyder, gwella'u medrau galwedigaethol ac ehangu'u cysylltiadau proffesiynol.

90 Mae llawer o ddarparwyr wedi gwella adnoddau a deunyddiau cwricwlwm i gynorthwyo dysgwyr o ganlyniad i'w gweithgareddau cynnwys dysgwyr. Er enghraifft, mae Hyfforddiant ISA wedi rhoi gliniaduron newydd gydag adnoddau ar-lein rhyngweithiol y gallant eu defnyddio gyda dysgwyr yn y gweithle. Mae'r un darparwr wedi gwneud defnydd da o adborth gan ddysgwyr hefyd i addasu gweithlyfrau ar gyfer dysgu Sgiliau Hanfodol. Mae wedi cynhyrchu gweithlyfrau ar gyfer meysydd galwedigaethol fel Adeiladu, Trin Gwallt neu Ofal Plant, sy'n cynnig syniadau i ddysgwyr ynglŷn â sut gallant ddefnyddio'u medrau hanfodol yn y gweithle.

91 Yn yr un modd, mae dysgwyr wedi gallu dylanwadau ar welliannau o ran cyfleusterau ac offer hyfforddi. Mae Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru wedi gwella ei adnoddau hyfforddi, offer ac amgylcheddau dysgu. Mae wedi gosod peiriannau gwerthu cymorthdaledig a chyfleusterau gorffwyso i ddysgwyr yn y canolfannau. Mae Hyfforddiant ITEC wedi addasu ei ganolfan yng Nghwmbrân i ddarparu amgylchedd dysgu mwy addas a llai o wrthdyniadau i ddysgu. Mae Hyfforddiant ISA wedi adleoli ei leoliadau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith er mwyn gwella hygyrchedd a hwyluso teithio i ddysgwyr sy'n mynychu sesiynau a addysgir.

## Arfarniad cryno o effaith strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys dysgwyr

92 Fel y crybwyllwyd yn gynharach, mae Estyn wedi cyhoeddi dau adroddiad arall ynglŷn ag effaith y strategaeth. Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r arolwg tair blynedd o effaith strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys dysgwyr.

93 Mae darparwyr ym mhob un o'r lleoliadau ôl-16 (addysg bellach, Cymraeg i Oedolion, DOG a DYYG) yn gwneud defnydd da o strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru i wneud yn siwr y gall dysgwyr gyfrannu at lywio darpariaeth a'r cwricwlwm. At ei gilydd, mae darparwyr yn yr holl sefydliadau yn gweithio'n dda â dysgwyr i wneud yn siŵr bod eu barnau a'u safbwyntiau yn cael effaith gadarnhaol ar:

- ddeilliannau dysgwyr, yn enwedig medrau personol a chymdeithasol;

- addysgu ac asesu;
- y cwricwlwm;
- adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau;
- cymorth i ddysgwyr;
- gwella ansawdd; ac
- arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol ar ddarpariaeth.

94 Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o sectorau yn defnyddio barnau a safbwyntiau dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu a'r asesu, roedd hyn yn llai amlwg mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG).

95 Mae darparwyr ym mhob cyfnod yn cael anhawster mesur effaith cynnwys dysgwyr ar gyrhaeddiad neu gymwysterau dysgwyr. Dim ond dechrau rhoi systemau ffurfiol ar waith ar gyfer cofnodi a chydnabod y deilliannau hyn ar gyfer dysgwyr y mae darparwyr.

96 Mae'r darparwyr ym mhob lleoliad yn adrodd, na ellir, yn y rhan fwyaf o achosion, briodoli gwelliannau mewn cyrhaeddiad a chymwysterau dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn unig. Mae ychydig o ddarparwyr ar draws y sector ôl-16 wedi rhoi systemau ar waith ar gyfer cofnodi a chydnabod deilliannau ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, yn y cam datblygu hwn, mae arolygwyr a darparwyr yn ochelgar ynghylch defnyddio'r math hwn o ddata i lunio casgliadau ynglŷn ag effaith gweithgareddau cynnwys dysgwyr ar gyfraddau llwyddo. Er enghraifft, efallai bod dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau llais y dysgwr, yn ôl eu natur, yn fwy hyderus a llafar na'u cymheiriaid, ac yn 'dewis eu hunain' felly ar gyfer y gweithgareddau hyn.

97 Fodd bynnag, dim ond rhan o'r stori yw effaith cynnwys dysgwyr ar wella cyrhaeddiad a chymwysterau. Mae arolygwyr wedi canfod bod dysgwyr yn gwella'u medrau personol a chymdeithasol yn fawr, ac yn dysgu medrau pwysig ar gyfer dinasyddiaeth. Mae dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a DYYG yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros gynrychioli barnau pobl eraill a threfnu gweithgareddau cymdeithasol. Maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd lleisio'u barnau er mwyn iddynt allu llywio'u cwricwlwm a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r rhain yn wersi pwysig ar gyfer eu rôl yn y dyfodol fel dinasyddion yng Nghymru. Effaith cynnwys dysgwyr ar rôl dinasyddiaeth dysgwyr sy'n oedolion yw'r agwedd fwyaf nodedig ar y ddarpariaeth hon. Mae llawer o ddysgwyr sy'n oedolion yn symud ymlaen yn gyflym o fod yn dderbynyddion dysgu i drefnu ac arwain ar ddysgu i rai eraill. Maent yn dod yn gysylltiedig â chefnogi gweithgareddau eraill a'u cymunedau. Mae dysgwyr Cymraeg hefyd yn dysgu cyflawni rolau tebyg ac yn helpu trefnu ystod o gyfleoedd dysgu gwahanol.

98 Mae'r buddion hyn ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol ac ar gyfer gwella rôl dinasyddiaeth dysgwyr yn cydweddu'n dda â dyheadau strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ar gyfer ei mentrau strategol eraill, fel cymorth ar gyfer ADCDFE.

## Mathau o gynnwys dysgwyr

99 Mae arolygwyr wedi canfod bod darparwyr yn y sector ôl-16 yn defnddio dau fath o gynnwys i gael dysgwyr i ddod yn gysylltiedig â llywio'u cwricwlwm.

100 **Cynnwys myfyriol** wrth lywio'r ddarpariaeth: helpu dysgwyr i feddwl am beth fyddai'n gwella ansawdd eu cwricwlwm. Y darparwr fel arfer sy'n annog y dull hwn o gynnwys dysgwyr. Mae darparwyr yn helpu dysgwyr i fyfyrio ynglŷn ag ansawdd eu cwricwlwm, a chynnig ei barnau i'r darparwr. Fel arfer bydd darparwyr yn rhoi hyn ar waith drwy ddefnyddio holiaduron, grwpiau ffocws dysgwyr neu fforymau. Mae darparwyr yn defnyddio deilliannau'r dull hwn i wneud gwelliannau i ansawdd ac i roi gwybod i ddysgwyr beth maent yn ei wneud o ganlyniad i hynny.

101 **Cynnwys gweithredol** wrth lywio'r ddarpariaeth: helpu dysgwyr i weithredu i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r cwricwlwm. Gall hyn fod drwy gyfranogi mewn pwyllgorau dysgwyr, sy'n cymryd cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â phrofiad y dysgwr. Gall darparwyr hefyd gynorthwyo dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am drefnu eu dosbarthiadau a'u dysgu eu hunain, a/neu drefnu a chyflwyno dysgu ar gyfer rhai eraill. Gall dysgwyr hefyd weithredu ar faterion eraill sy'n bwysig iddynt yn eu bywydau, er enghraifft, mynd i'r afael â materion gormes, dinasyddiaeth fyd-eang, ymgyrchu dros faterion menywod neu ymgyrchu dros faterion cymunedol. Gall dysgwyr hefyd fod yn gysylltiedig â threfnu eu dysgu eu hunain heb unrhyw gyfeiriad at ddarparwr dysgu neu heb unrhyw gysylltiad â darparwr dysgu.

102 Canfu Estyn fod **cynnwys myfyriol** yn ymwneud â gwella'r modd y mae darparwyr yn cyflwyno dysgu i'r dysgwyr. Mae'n ymwneud â gwneud newidiadau i seilwaith y darparwr - ei ddiben, athroniaeth dysgu, arddull cyflwyno a chyfleusterau ac adnoddau. Fodd bynnag, mae **cynnwys gweithredol** – paratoi dysgwyr i ymgymryd arweinyddiaeth – yn mynnu bod darparwyr yn helpu dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am y cwricwlwm, dosbarthiadau, addysgu a gweinyddu dysgu.

103 Mae **cynnwys gweithredol** yn golygu dibenion gwahanol, athroniaeth dysgu, arddull a chyflwyno, cymorth ac adnoddau gwahanol. Mae'n mynnu seilwaith gwahanol. Mae darparwyr yn rhoi dysgwyr wrth graidd y seilwaith. Bydd dysgwyr yn nodi beth maent eisiau/angen ei ddysgu, a rôl y darparwr yw hwyluso hyn. Gall hyn fod drwy gymorth ariannol neu gymorth gyda lleoliadau, benthyg offer neu gyfeirio at bobl neu ddarparwyr sydd â'r arbenigedd angenrheidiol. Mae darparwyr dysgu yn helpu dysgwyr unigol neu grwpiau ddod o hyd i'w ffordd eu hunain a llunio'u casgliadau a'u mewnwelediadau eu hunain.

## Dulliau o gynnwys dysgwyr

104 Fe wnaeth yr arolygwyr ganfod pedwar dull o gynnwys dysgwyr hefyd sy'n cael dysgwyr i ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol.

105 **Arweinyddiaeth** - mae dysgwyr yn gwneud penderfyniadau annibynnol ac yn gweithredu'n annibynnol arnynt. Maent yn **arwain** eu gweithgareddau dysgu eu hunain (U3A, canghenau dysgwyr Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, dysgu hunangyfeiriedig). Efallai y cânt rywfaint o gymorth gan y darparwr (er enghraifft rhenti â chymhorthdal).

106 **Partneriaeth** – mae dysgwyr yn **gweithio** mewn partneriaeth â darparwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u cwricwlwm, y cwricwlwm a threfnu gweithgareddau (er enghraifft pwyllgorau dysgwyr neu ddosbarthiadau y maent wedi'u trefnu eu hunain).

107 **Ymgynghori** – mae darparwyr yn **ymgynghori** â dysgwyr ynghylch eu barnau, wyneb yn wyneb, am ansawdd eu cwricwlwm fel y gall y darparwr weithredu arnynt (er enghraifft fforymau dysgwyr neu grwpiau ffocws).

108 **Rhoi gwybod** – mae dysgwyr yn **rhoi gwybod** i ddarparwyr beth yw eu barnau drwy holiaduron neu arolygon, ac mae darparwyr yn **rhoi gwybod** i ddysgwyr beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i hynny (er enghraifft holiaduron neu arolygon).

109 Nid gwaith ar wahân yw'r dulliau hyn o gael dysgwyr i ymgysylltu. Gall darparwyr ddefnyddio cymysgedd o'r gweithgareddau hyn a helpu dysgwyr i symud rhwng y dulliau gwahanol.

110 Mae pwyslais gwahanol i'r dulliau gwahanol. Mae'r dulliau rhoi gwybod ac ymgynghori yn ymwneud yn bennaf â gwella ansawdd y cwricwlwm. Mae'r dulliau partneriaeth ac arweinyddiaeth yn ymwneud mwy â dysgwyr yn datblygu'r medrau a'r cymhelliant i weithredu a threfnu eu dysgu eu hunain.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad hwn, cynhaliodd Estyn arolwg ar-lein o ddarparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) a Dysgu yn y Gwaith (DYYG). Ymatebodd y darparwyr canlynol:

- Acorn Learning Solutions;
- Cwmni Hyfforddiant Cambrian;
- Coleg Caerdydd a'r Fro;
- Coleg y Cymoedd;
- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cyswllt Dysgu;
- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent;
- Hyfforddiant ISA;
- ITEC Training Solutions;
- Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru;
- Academi Sgiliau Cymru;
- Academi Sgiliau Cymru (De Orllewin);
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru; a
- Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam.

Ymwelom hefyd ag:

- Acorn Training;
- Cwmni Hyfforddiant Cambrian;
- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Cyngor Sir Gâr;
- Cyngor Sir Caerdydd;
- Dinas a Sir Abertawe a dysgwyr unigol;
- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent;
- Hyfforddiant ISA;
- Hyfforddiant ITEC;
- Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru;
- Dosbarth Gemwaith Parc Montana, Abertawe;
- Academi Sgiliau'r De Orllewin;
- Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol De Orllewin Cymru;
- U3A Abertawe;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - dysgu oedolion yn y gymuned;
- Hyfforddiant Torfaen;
- TUC Cymru;
- Sefydliad y Merched;
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru; a'r
- Gynghrair Ansawdd Sgiliau.

Yn ystod yn ymweliadau hyn, cynhaliom ystod o gyfweliadau gydag amryw o reolwyr a chynhaliom gyfweliadau grŵp â dysgwyr.

Hefyd, buom yn adolygu adroddiadau arolygu ar bartneriaethau DOG a chonsortia DYYG ar gyfer y cyfnod 2012 i 2014.

## Atodiad 2: Enghreifftiau o ddarparwyr y mae eu hethos a'u harfer yn seiliedig ar gynnwys dysgwyr

Mae **Prifysgyl y Drydedd Oes (U3A)** yn fudiad sydd, drwy ei grwpiau lleol, yn darparu ystod eang iawn o weithgareddau dysgu. Bydd aelodau unigolyn dod at ei gilydd yn wirfoddol i astudio pwnc penodol a dysgu oeddi wrth ei gilydd. Mae aelodau'n rhannu'u medrau a'u profiadau bywyd: mae'r dysgwyr yn addysgu ei gilydd.

Caiff grwpiau U3A eu rheoli'n annibynnol gan gymdeithasau elusennol; mae ganddynt eu cyfansoddiadau eu hunain ac maent yn hunanlywodraethol. Cefnogir y mudiad U3A gan sefydliad cenedlaethol, sef Ymddiriedolaeth y Drydedd Oes. Ymddiriedolaeth y Drydedd Oes yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer grwpiau U3A yn y DU. Mae'n sylfaen i waith grwpiau U3A yn lleol trwy ddarparu cymorth addysgol a gweinyddol i'w pwyllgorau rheoli ac i aelodau unigol, ac mae'n cynorthwyo â datblygu grwpiau U3A newydd ledled y DU. Mae'n ofynnol bod yn aelod o Ymddiriedolaeth y Drydedd Oes er mwyn defnyddio enw a logo U3A.

Mae stratagaeth y mudiad yn syml. Bydd aelodau unigol yn penderfynu beth maent am ei ddysgu, a byddant yn mynd ati'n wirfoddol i drefnu grwpiau neu ddod yn gysylltiedig â grwpiau er mwyn hyrwyddo'u dysgu.

Mae ychydig dros 50 o grwpiau U3A yng Nghymru, yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r wlad (Grwpiau U3A Cymru). Gan Abertawe y mae'r grŵp U3A mwyaf yng Nghymru, gyda 1,200 o aelodau a bron i 90 o grwpiau gweithgareddau. Yn Abertawe, mae'r U3A yn cael ei gynnal gan bwyllgor, sy'n cyfarfod yn fisol i wneud yn siwr bod y mudiad yn rhedeg yn hwylus ar lefel leol, ac i roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau'r grŵp. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am reoli cyllid y grŵp lleol ac am helpu sefydlu grwpiau gweithgareddau.

Mae'r pwyllgor yn daparu canllawiau ar gyfer grwpiau gweithgareddau ar agweddau fel ffioedd, rheolaeth ariannol, ac adnoddau. Hefyd, mae'r pwyllgor yn cyfeirio aelodau unigol at U3A y DU i gael cyngor arbenigol ar bwnc. Mae'r pwyllgor yn helpu grwpiau newydd i gychwyn ac mae'n rhoi cyngor ynglŷn â ble gallant gyfarfod a beth sydd angen i aelodau unigol ei wneud i gynnal y grŵp. Bydd aelodau unigol y pwyllgor hefyd yn cysylltu pobl â'i gilydd os oes ganddynt ddiddordebau tebyg.

Mae'r U3A yn Abertawe yn cynnal ystod eang o weithgareddau yn cynnwys Grwpiau Bridge, Grwpiau Cyfrifiaduron, Hanes Lleol, ac Iwcaleili. Mae'r grŵp hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau dysgu ar y cyd lle bydd grŵp o fudiadau U3A yn cyfuno i ymchwilio i destun penodol, er enghraifft, hanes marchnad Abertawe. Yn ogystal, mae'r grŵp yn trefnu diwrnodau astudio ac yn gweithio gydag aelodau grwpiau eraill yng Nghymru i drefnu cynhadledd genedlaethol.

Mae'r math hwn o ddysgu yn cynnig ystod o fuddion i aelodau, gan gynnwys datblygu grwpiau cyfeillion newydd, ymdopi â phrofedigaeth, cynllunio ymddeoliad ac ysgogi brwdfrydedd a meithrin hyder i bobl hŷn. Mae cyfranogi yn yr U3A hefyd yn annog aelodau i deithio a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol, er enghraifft, dod yn rhan o fentrau ar lefel y DU.

Mae'r pwyllgor yn Abertawe yn gweithio'n strategol i annog sefydlu grwpiau newydd mewn ardaloedd o'r ddinas lle mae aelodaeth o'r U3A yn isel. Mae'n gallu darparu cyllid sefydlu ar gyfer grwpiau newydd, yn ogystal â chynorthwyo grwpiau newydd yn eu dyddiau cynnar.

Rhaglen adeiladu gallu yw **Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth** sy'n addysgu ac yn grymuso menywod yng Nghymru i gael y medrau, yr hyder, a'r agwedd i ddod yn arweinwyr yn eu cymunedau ac yn benderfynyddion ar bob lefel o fywyd cyhoeddus a bywyd gwleidyddol.

Yng Nghymru, cynhelir y rhaglen gan Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched (Sefydliad y Merched Cymru) a threfnir cyrsiau mewn partneriaeth ag ystod o bartneriaid, yn cynnwys Cyngor Sir Gâr a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru.

Mae Sefydliad y Merched yn cynnal tri chwrs i annog menywod i chwarae rolau blaenllaw mewn bywyd cyhoeddus:

- Ysgogi newid yn y gymuned;
- Menywod mewn bywyd cyhoeddus; a
- Menywod yn rheolwyr.

Mae'r cyrsiau ar gyfer menywod o bob cefndir i'w hysbrydoli a'u cymell. Mae 700 o ddysgwyr wedi bod yn gysylltiedig â'r rhaglen, ac mae Sefydliad y Merched wedi creu rhwydwaith o ddysgwyr ledled Cymru. Mae'r cyrsiau wedi dod â menywod at ei gilydd o ystod o gefndiroedd gwahanol, gan gynnwys menywod sy'n drychedigion, yn drawsrywiol, â chanddynt broblemau iechyd neu sy'n geiswyr lloches. Nid yw ychydig dros draean o gyfranogwyr y cyrsiau yn dod o Brydain, ac nid yw chwarter y dysgwyr yn siarad Saesneg fel mamiaith.

Mae Sefydliad y Merched hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Prydeinig i gynnal cyrsiau dinasyddion gweithgar. Mae hyn yn golygu bod menywod yn gwneud cysylltiadau â dysgwyr mewn gwledydd eraill er mwyn datblygu safbwynt byd-eang.

Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cwrs Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin wedi cyflawni ystod eang o ganlyniadau ac wedi dysgu'r medrau i weithredu ar faterion sy'n bwysig iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod;
- cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â materion iechyd meddwl;
- ymgyrchu i wneud ysgolion yn fannau mwy diogel i ferched; a
- cyfeillio â mewnfudwyr er mwyn eu helpu i ymgartrefu yn y gymuned.

Mae **Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru** wedi cynnal y rhaglen hyfforddi cynrychiolwyr dysgu cymunedol ers Medi 2006. Mae'r gymdeithas wedi gweithio mewn partneriaeth ag ystod o ddarparwyr i hyfforddi cynrychiolwyr dysgu cymunedol.

Mae'r cwrs yn adeiladu ar gryfderau'r cyfranogwyr trwy ddarparu'r medrau a'r hyder iddynt hyrwyddo Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) i rai eraill yn eu cymunedau. Mae'r cwrs yn rhoi'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddysgwyr i roi cyngor i ddarpar ddysgwyr a'u helpu i wneud cynnydd. Mae'r cwrs yn cwmpasu arddulliau dysgu, rhwystrau rhag dysgu, medrau personol a chymdeithasol, ystod y darparwyr dysgu, medrau sylfaenol a chynllunio gweithredu.

Mae'r cwrs yn helpu dysgwyr i ymgymryd â rôl arweinyddiaeth yn eu cymunedau lleol a hyrwyddo dysgu i rai eraill. Mae cynrychiolwyr dysgu cymunedol yn effeithiol o ran cyrraedd pobl na fyddent fel arall yn ymgysylltu â dysgu, neu o ran gofyn am gymorth gan ddarparwyr neu ddarparwyr cymunedol. Yn aml, bydd cynrychiolwyr dysgu cymunedol yn cyfarfod â darpar ddysgwyr eraill mewn amgylcheddau cyfarwydd fel gatiau ysgol, mewn cylch chwarae neu grŵp cymunedol, neu trwy rwydwaith cyfeillgarwch.

Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn gweithio gyda TUC Cymru i drefnu rhaglen hyfforddi 'Cynrychiolwyr Dysgu Undebau'. Mae'r rhaglen hon yn paratoi pobl yn y gweithle i hyrwyddo a threfnu dysgu ar gyfer eu cydweithwyr. Mae hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i drefnu dysgu a galluogi eu cydweithwyr i fynychu cyrsiau. Mae cynrychiolwyr dysgu undebau yn gweld eu rôl fel hwyluswyr dysgu - ac mae dileu rhwystrau rhag mynediad at ddysgu i gyflogeion yn rhan allweddol o hynny.

## Atodiad 3: Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2014

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ail arolwg Llais y Dysgwr Cymru rhwng Rhagfyr 2013 a Chwefror 2014 (Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2014).

Yn y sector dysgu yn y gwaith, ymatebodd 20,496 o ddysgwyr a dywedodd 92% fod eu darparwr yn dda iawn neu'n dda.

Mewn dysgu oedolion yn y gymuned, ymatebodd 6299 o ddysgwyr, a dywedodd 91% fod eu darparwr yn dda iawn neu'n dda.

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Liam Kealy AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Sandra Barnard AEM | Aelod tîm |
| Steve Bell AEM | Aelod tîm |